

Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

07.12.2020

Annwyl Riant / Gofalwr,

Rwy'n gobeithio eich bod yn iach ac yn ymdopi yn ystod y cyfnod anodd, parhaus yma.

Fel y gwyddoch, mae nifer yr achosion cadarnhaol o Covid 19 ymhlith plant ac oedolion ar draws ein bwrdeistref yn dal i gynyddu. O ganlyniad, mae llawer o'n plant a'n pobl ifanc wedi profi aflonyddwch yn eu dysgu gan eu bod naill ai yn sâl neu wedi gorfod hunanynysu. Mae arweinwyr a staff ysgolion yn gweithio'n galed iawn i weithredu mesurau diogelwch trwyadl a chadarn yn ei safle, ac i wneud cymaint ag y gallant i ddarparu profiadau dysgu o safon. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth yn y sefyllfaoedd hyn yn fawr.

Disgwylir i'r tymor ysgol ddod i ben ddydd Gwener, 18fed Rhagfyr, 2020. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol, mewn trafodaeth â phenaethiaid, wedi cytuno mai'r diwrnod olaf o ddysgu ar y safle i ddisgyblion fydd dydd Mercher, 16eg Rhagfyr. Bydd ysgolion yn darparu dysgu cyfunol am y ddau ddiwrnod arall oddi ar y safle a bydd y rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cael eu darparu ar gyfer y ddau ddiwrnod hyn.

Yn ystod yr wythnos olaf hon o'r tymor, efallai y bydd rhai ysgolion hefyd wedi cynllunio neu efallai eu bod yn aildrefnu diwrnodau HMS. Bydd eich pennaeth unigol yn cysylltu â chi i amlinellu eu trefniadau priodol. Cysylltwch â'r ysgol i drafod unrhyw bryderon penodol.

Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i rai ysgolion symud i ddysgu cyfunol yn gynharach na dydd Iau, 17^{eg} o Ragfyr, os na ellir sicrhau lefelau staffio digonol.

Mae'r awdurdod lleol a chymunedau ysgolion wedi ymrwymo'n llwyr i gynnig y ddarpariaeth orau o dan amgylchiadau cynyddol anodd ac rydym yn cydnabod pa mor bryderus y mae'r sefyllfa hon i chi.

Mawr obeithiaf y byddwch yn mwynhau Nadolig teuluol diogel ac y byddwn i gyd yn edrych ymlaen efo'n gilydd at flwyddyn newydd.

Yn ddiffuant

Keri

Keri Cole, Prif Swyddog Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.